# CYFARFOD PENDERFYNIADAU DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Gwener, 5 Gorffennaf 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** L.M. Stephens (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
A. Wood, Rheolwr Gwasanaethau Pobl
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Democratic Services Committee Room, County Hall, Carmarthen, SA31 1JP - 11.00 - 11.15 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 30AIN HYDREF, 2017.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 30 Hydref, 2017 yn gofnod cywir.**

## 3. POLISI PRYNU GWYLIAU - DIWEDDARIAD.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad ynghylch y Polisi Prynu Gwyliau Blynyddol diweddaraf. Eglurwyd bod y Polisi wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol o ran prynu pensiwn yn ôl. Yn ôl y newidiadau diweddar i'r CPLlL mae'n ofynnol i weithwyr ddewis prynu pensiwn yn ôl am gyfnod o absenoldeb ychwanegol (di-dâl). Mater i'r gweithiwr yw penderfynu a ydyw'n mynd i brynu pensiwn yn ôl, a chyfrifoldeb y gweithiwr yw gwneud y trefniadau hyn yn uniongyrchol â Chronfa Bensiwn Dyfed.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at y polisi diweddaraf ac awgrymodd y newidiadau canlynol:

- Paragraff 27 – ychwanegu brawddeg yn cyfeirio gweithwyr at y canllawiau ychwanegol i weithwyr.
- Paragraff 19 – ei symud i baragraff 15.
- Paragraff 24 – cynnwys manylion am yr amserlenni.

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar gynnwys y newidiadau a nodwyd uchod, gymeradwyo'r Polisi Prynu Gwyliau Blynyddol diweddaraf.**

______________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIA**